



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2019 Rhif 1489 (Cy. 269)**

**2019 No. 1489 (W. 269)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

**Rheoliadau Cynlluniau Strategol  
Cymraeg mewn Addysg (Cymru)  
2019**

**The Welsh in Education Strategic  
Plans (Wales) Regulations 2019**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (“Deddf 2013”) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg (“cynllun”). Mae adran 85 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gyflwyno ei gynllun i Weinidogion Cymru i’w gymeradwyo cyn i’r cynllun hwnnw gael ei gyhoeddi.

Section 84 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (“the 2013 Act”) requires a local authority to prepare a Welsh in education strategic plan (“plan”). Section 85 of the 2013 Act requires a local authority to submit its plan to the Welsh Ministers for approval prior to that plan being published.

Mae’r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adrannau 84, 87 and 97 o Ddeddf 2013. Maent yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol lunio cynllun deng mlynedd, y cyntaf i gael effaith o 1 Medi 2021, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer y materion a ganlyn:

These Regulations are made under sections 84, 87 and 97 of the 2013 Act. They make provision for a local authority to prepare a ten year plan, the first to have effect from 1 September 2021, subject to the Welsh Ministers’ approval. They also make provision for the following matters:

- (a) ffurf a chynnwys y cynllun (rheoliad 3);
- (b) cyfnod para’r cynllun (rheoliad 4);
- (c) y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno’r cynllun i Weinidogion Cymru i’w gymeradwyo (rheoliad 5);
- (d) cymeradwyo cynllun (rheoliad 6);
- (e) amserlenni ar gyfer cyflwyno adroddiad adolygu (rheoliad 7);
- (f) trefniadau ar gyfer diwygio’r cynllun (rheoliad 8);
- (g) y personau a’r cyrff y mae rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â hwy ynghylch y cynllun drafft (rheoliad 9);
- (h) y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi’r cynllun (rheoliad 10);

- (a) the form and content of the plan (regulation 3);
- (b) the duration of the plan (regulation 4);
- (c) the date by which the plan must be submitted to the Welsh Ministers for approval (regulation 5);
- (d) the approval of a plan (regulation 6);
- (e) timescales for submitting a review report (regulation 7);
- (f) arrangements for revising a plan (regulation 8);
- (g) the persons and bodies that a local authority must consult on the draft plan (regulation 9);
- (h) the date by which the plan must be published (regulation 10);

- (i) dull cyhoeddi cynllun (rheoliad 11);
- (j) dirymu, gydag arbedion, Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 (rheoliad 12).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Lles Disgyblion, Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

- (i) the manner of publication of a plan (regulation 11);
- (j) the revocation, with savings, of the Welsh in Education Strategic Plans and Assessing Demand for Welsh Medium Education (Wales) Regulations 2013 (regulation 12).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Pupil Wellbeing Branch, the Support for Learners Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2019 Rhif 1489 (Cy. 269)**

**2019 No. 1489 (W. 269)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

**Rheoliadau Cynlluniau Strategol  
Cymraeg mewn Addysg (Cymru)  
2019**

**The Welsh in Education Strategic  
Plans (Wales) Regulations 2019**

*Gwnaed* 4 Rhagfyr 2019

*Made* 4 December 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 5 Rhagfyr 2019

*Laid before the National Assembly for Wales* 5  
December 2019

*Yn dod i rym* 1 Ionawr 2020

*Coming into force* 1 January 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan reoliadau 84, 87 a 97 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 84, 87 and 97 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013(1), make the following Regulations:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**Title, commencement and application**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2020.

1.—(1) The title of these Regulations is the Welsh in Education Strategic Plans (Wales) Regulations 2019 and they come into force on 1 January 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Dehongli**

**Interpretation**

2. Yn y Rheoliadau hyn—

2. In these Regulations—

ystyr “athro neu athrawes ysgol” (“*school teacher*”) yw person sydd wedi ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori athro neu athrawes ysgol fel y’i disgrifir yn nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014;

“the 1998 Act” (“*Deddf 1998*”) means the School Standards and Framework Act 1998(2);

ystyr “blwyddyn 1” (“*year 1*”) yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y plant, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 6 oed;

“the 2013 Act” (“*Deddf 2013*”) means the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013;

ystyr “blwyddyn 10” (“*year 10*”) yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y plant, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 15 oed;

“the 2014 Act” (“*Deddf 2014*”) means the Education (Wales) Act 2014(3);

“FEI” (“*SAB*”) means an institution within the further education sector in Wales as defined by section 91(3) of the Further and Higher Education Act 1992(4);

---

(1) 2013 decc 1. *Gweler* adran 98 am y diffiniad o “rhagnodedig”.

---

(1) 2013 anaw 1. *See* section 98 for the definition of “prescribed”.

(2) 1998 c. 31.

(3) 2014 anaw 5.

(4) 1992 c. 13.

ystyr “blwyddyn derbyn” (“*reception*”) yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y plant, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 5 oed;

ystyr “blwyddyn ysgol” (“*school year*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau â’r tymor ysgol cyntaf i ddechrau ar ôl Gorffennaf ac sy’n dod i ben â dechrau’r tymor cyntaf o’r fath i ddechrau ar ôl y Gorffennaf canlynol;

ystyr “cynllun” (“*plan*”) yw cynllun strategol Cymraeg mewn addysg fel y’i disgrifir gan adran 84(1) o Ddeddf 2013;

ystyr “darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol” (“*provider of initial school teacher training*”) yw darparwr cwrs neu raglen hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol wedi ei achredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg o dan erthygl 3(1)(a) o Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017(1);

ystyr “Deddf 1998” (“*the 1998 Act*”) yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(2);

ystyr “Deddf 2013” (“*the 2013 Act*”) yw Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013;

ystyr “Deddf 2014” (“*the 2014 Act*”) yw Deddf Addysg (Cymru) 2014(3);

ystyr “fforwm cynllunio Cymraeg mewn addysg” (“*Welsh in education planning forum*”) yw corff a sefydlir gan awdurdod lleol at ddiben gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, y mae ei aelodau yn swyddogion i’r awdurdod lleol ac unrhyw bersonau eraill y mae’r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn briodol;

ystyr “grŵp blwyddyn” (“*year group*”) yw grŵp o blant mewn ysgol y bydd y mwyafrif ohonynt, mewn blwyddyn ysgol benodol, yn cyrraedd yr un oedran;

ystyr “gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol” (“*school learning support worker*”) yw person sydd wedi ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol fel y’i disgrifir yn nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014;

ystyr “SAB” (“*FEP*”) yw sefydliad o fewn y sector addysg bellach yng Nghymru fel y diffinnir “institutions within the further education sector” gan adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(4).

“plan” (“*cynllun*”) means a Welsh in education strategic plan as described by section 84(1) of the 2013 Act;

“provider of initial school teacher training” (“*darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol*”) means a provider of a course or programme of initial school teacher training accredited by the Education Workforce Council under article 3(1)(a) of the Education Workforce Council (Accreditation of Initial Teacher Training) (Additional Functions) (Wales) Order 2017(1);

“reception” (“*blwyddyn derbyn*”) means a year group in which the majority of children will, in the school year, attain the age of 5;

“school learning support worker” (“*gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol*”) means a person who is registered with the Education Workforce Council in the category of school learning support worker as described in table 1 of Schedule 2 to the 2014 Act;

“school teacher” (“*athro neu athrawes ysgol*”) means a person who is registered with the Education Workforce Council in the category of school teacher as described in table 1 of Schedule 2 to the 2014 Act;

“school year” (“*blwyddyn ysgol*”) means the period beginning with the first school term to begin after July and ending with the beginning of the first such term to begin after the following July;

“Welsh in education planning forum” (“*fforwm cynllunio Cymraeg mewn addysg*”) means a body established by a local authority for the purpose of improving the provision of Welsh medium education, the members of which consist of local authority officers and such other persons as the local authority considers appropriate;

“year 1” (“*blwyddyn 1*”) means a year group in which the majority of children will, in the school year, attain the age of 6;

“year 10” (“*blwyddyn 10*”) means a year group in which the majority of children will, in the school year, attain the age of 15;

“year group” (“*grŵp blwyddyn*”) means a group of children at a school the majority of whom will, in a particular school year, attain the same age.

---

(1) O.S. 2017/154 (Cy. 45), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2017/1023 (Cy. 261).

(2) 1998 p. 31.

(3) 2014 deccc 5.

(4) 1992 p. 13.

---

(1) S.I. 2017/154 (W. 45). As amended by S.I. 2017/1023 (W. 261).

### **Ffurf a chynnwys**

3. Rhaid i bob cynllun gynnwys darpariaeth sy'n ymdrin â'r materion a nodir yn yr Atodlen.

### **Cyfnod para cynlluniau deng mlynedd**

4.—(1) Mae cynllun awdurdod lleol yn cael effaith am y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Medi 2021 ac sy'n dod i ben ar 31 Awst 2031 ("y cynllun deng mlynedd cyntaf").

(2) Mae pob cynllun deng mlynedd dilynol yn cael effaith am y cyfnod o ddeng mlynedd sy'n dechrau ar 1 Medi yn y flwyddyn pan fydd y cynllun deng mlynedd blaenorol yn dod i ben.

(3) Mae paragraffau (1) a (2) yn ddarostyngedig i reoliadau 6 (cynlluniau deng mlynedd nad ydynt wedi eu cymeradwyo erbyn 1 Medi) ac 8 (diwygio cynlluniau).

### **Cyflwyno cynlluniau deng mlynedd i Weinidogion Cymru**

5.—(1) Rhaid i awdurdod lleol gyflwyno ei gynllun deng mlynedd cyntaf i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo heb fod yn hwyrach na 31 Ionawr 2021.

(2) Rhaid i awdurdod lleol gyflwyno pob cynllun deng mlynedd dilynol i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo heb fod yn hwyrach na 31 Mawrth yn y flwyddyn y bydd y cynllun yn cymryd effaith.

### **Cynlluniau deng mlynedd nad ydynt wedi eu cymeradwyo erbyn 1 Medi**

6.—(1) Os nad yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo cynllun deng mlynedd erbyn 1 Medi yn y flwyddyn y mae'r cynllun hwnnw i gael effaith ynddi, yna mae'r cynllun hwnnw yn cael effaith un mis calendr ar ôl i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun.

(2) Nid yw paragraff (1) yn effeithio ar y dyddiad y bydd y cynllun deng mlynedd yn dod i ben arno (fel y'i hamlinellir o dan reoliad 4), oni bai bod y cynllun yn cael ei ddisodli gan gynllun diwygiedig yn unol â rheoliad 8.

### **Adroddiad adolygu blynyddol**

7.—(1) Rhaid i awdurdod lleol bob blwyddyn, gan ddechrau yn 2022, gyflwyno adroddiad adolygu i Weinidogion Cymru sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed i gyflawni'r targedau sydd wedi eu cynnwys yn ei gynllun a'r camau y mae wedi eu cymryd o ganlyniad i'r datganiadau yn ei gynllun.

### **Form and content**

3. Each plan must include provision dealing with the matters set out in the Schedule.

### **Duration of ten year plans**

4.—(1) A local authority's plan has effect for the period commencing on 1 September 2021 and ending on 31 August 2031 ("the first ten year plan").

(2) Each subsequent ten year plan has effect for the period of ten years commencing on 1 September in the year when the previous ten year plan expires.

(3) Paragraphs (1) and (2) are subject to regulations 6 (ten year plans not approved by 1 September) and 8 (revision of plans).

### **Submission of ten year plans to the Welsh Ministers**

5.—(1) A local authority must submit its first ten year plan to the Welsh Ministers for approval no later than 31 January 2021.

(2) A local authority must submit each subsequent ten year plan to the Welsh Ministers for approval no later than 31 March in the year the plan will take effect.

### **Ten year plans not approved by 1 September**

6.—(1) If the Welsh Ministers do not approve a ten year plan by 1 September in the year in which that plan is to have effect, then that plan has effect one calendar month after the Welsh Ministers approve the plan.

(2) Paragraph (1) does not affect the date on which the ten year plan will expire (as outlined under regulation 4), unless the plan is replaced by a revised plan in accordance with regulation 8.

### **Annual review report**

7.—(1) A local authority must each year, commencing in 2022, submit a review report to the Welsh Ministers which outlines the progress made to meet the targets contained in its plan and the steps it has taken as a result of the statements in its plan.

(2) Rhaid cyflwyno'r adroddiad adolygu cyntaf i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf 2022 a bydd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed a'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol yn y cyfnod ers i'r cynllun deng mlynedd cyntaf gael effaith.

(3) Rhaid cyflwyno adroddiadau adolygu dilynol i Weinidogion Cymru fesul ysbaid nad yw'n hwy na 12 mis ers cyflwyno yr adroddiad blaenorol a byddant yn amlinellu'r cynnydd a wnaed a'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol yn y cyfnod ers i'r adroddiad blaenorol gael ei gyflwyno.

### Diwygio cynlluniau

8.—(1) Wrth lunio'r adroddiad neu ar ôl llunio'r adroddiad adolygu o dan reoliad 7, os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu diwygio ei gynllun, rhaid iddo gyflwyno'r cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo heb fod yn hwyrach na 6 mis calendr ar ôl i'r adroddiad adolygu gael ei gyflwyno.

(2) Mae'r cynllun sy'n cael ei ddisodli gan y cynllun diwygiedig yn peidio â chael effaith un mis calendr ar ôl cymeradwyo'r cynllun diwygiedig.

(3) Mae'r cynllun diwygiedig yn cael effaith un mis calendr ar ôl cymeradwyo'r cynllun diwygiedig, ac yn cael effaith am weddill y cyfnod yr oedd y cynllun sy'n cael ei ddisodli ganddo yn cael effaith yn wreiddiol.

### Llunio ac ymgynghori

9. Y personau rhagnodedig at ddibenion adran 84(4)(f) o Ddeddf 2013 (personau y mae rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â hwy wrth lunio cynllun deng mlynedd neu gynllun diwygiedig(1)) yw—

- (a) Comisiynydd y Gymraeg (o fewn ystyr adran 2 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(2));
- (b) Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (o fewn ystyr "Early Years Development and Childcare Partnership" yn adran 119 o Ddeddf 1998);
- (c) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
- (d) darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol;
- (e) unrhyw sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn briodol; ac

(2) The first review report must be submitted to the Welsh Ministers no later than 31 July 2022 and will outline the progress made and the steps taken by the local authority in the period since the first ten year plan has effect.

(3) Subsequent review reports must be submitted to the Welsh Ministers at intervals not exceeding 12 months from the submission of the previous report and will outline the progress made and the steps taken by the local authority in the period since the submission of the previous report.

### Revision of plans

8.—(1) During or following the preparation of the review report under regulation 7, if the local authority decides to revise its plan, it must submit the revised plan to the Welsh Ministers for approval no later than 6 calendar months after the review report has been submitted.

(2) The plan which the revised plan replaces ceases to have effect one calendar month after approval of the revised plan.

(3) The revised plan has effect one calendar month after approval of the revised plan and has effect for the remainder of the period for which the plan it replaces originally had effect.

### Preparation and consultation

9. The persons prescribed for the purposes of section 84(4)(f) of the 2013 Act (persons a local authority must consult in preparing a ten year plan or revised plan(1)) are—

- (a) the Welsh Language Commissioner (within the meaning of section 2 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011(2));
- (b) the Early Years Development and Childcare Partnership (within the meaning of section 119 of the 1998 Act);
- (c) Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales;
- (d) providers of initial school teacher training;
- (e) such organisations providing services to children and young people as the local authority considers appropriate; and

(1) Mae'r personau hyn yn ychwanegol at y rheini a restrir yn adran 84(4) o Ddeddf 2013.

(2) 2011 mccc 1.

(1) These persons are in addition to those listed in section 84(4) of the 2013 Act.

(2) 2011 nawm 1.

- (f) unrhyw bersonau neu gyrff eraill yr ymddengys i'r awdurdod lleol eu bod yn briodol.

- (f) such other persons or bodies as appear to the local authority to be appropriate.

### **Amseriad cyhoeddi**

**10.** Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi ei gynllun (neu ei gynllun diwygiedig) ar neu cyn y dyddiad y mae'r cynllun yn cymryd effaith.

### **Timing of publication**

**10.** A local authority must publish its plan (or revised plan) on or before the date the plan takes effect.

### **Dull cyhoeddi**

**11.** Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi ei gynllun (neu ei gynllun diwygiedig) drwy—

- (a) ei roi ar ei wefan; a
- (b) rhoi copïau o'r cynllun ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt yn—
  - (i) pob un o'i swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd;
  - (ii) unrhyw le arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

### **Manner of publication**

**11.** A local authority must publish its plan (or revised plan) by—

- (a) placing it on its website; and
- (b) making copies of the plan available for inspection by members of the public at—
  - (i) each of its offices that are open to the public;
  - (ii) any other place it considers appropriate.

### **Dirymu ac arbedion**

**12.—**(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013(1) wedi eu dirymu.

(2) Bydd cynllun awdurdod lleol sy'n cael effaith yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym yn parhau i gael effaith hyd nes y bydd cynllun deng mlynedd cyntaf yr awdurdod lleol yn cael effaith.

### **Revocation and savings**

**12.—**(1) Subject to paragraph (2), the Welsh in Education Strategic Plans and Assessing Demand for Welsh Medium Education (Wales) Regulations 2013(1) are revoked.

(2) A local authority's plan which has effect immediately prior to the coming into force of these Regulations will continue to have effect until the local authority's first ten year plan has effect.

*Kirsty Williams*

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru  
4 Rhagfyr 2019

Minister for Education, one of the Welsh Ministers  
4 December 2019

1.—(1) Targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwylidig mewn plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes y cynllun.

(2) Wrth gyfrifo'r targed, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 87(4) o Ddeddf 2013.

2. Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwylidig mewn plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y cynllun.

3. Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio data sy'n deillio o'i adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant ar gyfer ei ardal (o dan ddyletswyddau a nodir yn rheoliad 3 o Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016(1)) er mwyn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg.

4.—(1) Targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwylidig yn nifer y plant yn y flwyddyn derbyn a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes y cynllun.

(2) Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwylidig yn nifer y plant yn y flwyddyn derbyn a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y cynllun.

5. Datganiad sy'n nodi sut y bydd ceisiadau y mae'r awdurdod lleol yn eu gwneud am gyllid grant gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag ysgolion a gynhelir ganddo yn ystyried y targed i gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y cynllun.

6. Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cydweithio ag awdurdodau lleol eraill drwy arfer eu swyddogaethau ar y cyd er mwyn sicrhau parhad mewn trefniadau ar gyfer personau sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg y tu allan i'w ardal.

7. Datganiad sy'n nodi trefniadau'r awdurdod lleol o ran ei ddarpariaeth ar gyfer hwyrdyfodiaid(2) i addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sut a phryd y mae gwybodaeth yn cael ei rhoi i rieni a gwarcheidwaid.

1.—(1) A target outlining the expected increase of Year 1 children taught through the medium of Welsh in the local authority's area during the lifespan of the plan.

(2) In calculating the target, local authorities must have regard to guidance issued by the Welsh Ministers under section 87(4) of the 2013 Act.

2. A statement setting out how the local authority will achieve the expected increase in Year 1 children taught through the medium of Welsh during the lifespan of the plan.

3. A statement setting out how the local authority will use data derived from its review of the sufficiency of childcare provision for its area (under duties set out in regulation 3 of the Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) Regulations 2016(1)) to inform planning of Welsh medium education.

4.—(1) A target outlining the expected increase in the number of children in reception taught through the medium of Welsh in the local authority's area during the lifespan of the plan.

(2) A statement setting out how the local authority will achieve the expected increase in the number of children in reception taught through the medium of Welsh during the lifespan of the plan.

5. A statement setting out how applications the local authority makes for grant funding from the Welsh Ministers in respect of its maintained schools will take account of the target to increase the number of Year 1 children taught through the medium of Welsh during the lifespan of the plan.

6. A statement setting out how the local authority will work on a collaborative basis with other local authorities by exercising their functions jointly to ensure continuity in arrangements for persons accessing Welsh medium education outside its area.

7. A statement setting out the local authority's arrangements with regard to their provision for latecomers(2) to Welsh medium education, including how and when information is provided to parents and guardians.

(1) O.S. 2016/88 (Cy. 42).

(2) Plant (sy'n 7 oed neu drosodd) nad ydynt yn siarad Cymraeg ond sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl diwedd y cyfnod sylfaen.

(1) S.I. 2016/88 (W. 42).

(2) Children (aged 7 years or over) who do not speak Welsh but wish to access Welsh medium education after the end of the foundation phase.



**8.** Datganiad sy'n nodi sut y mae'r awdurdod lleol wedi gweithio mewn partneriaeth â'i fforwm cynllunio Cymraeg mewn addysg (os yw wedi ei sefydlu yn ardal yr awdurdod lleol) i lunio cynllun yr awdurdod a sut y bydd y fforwm yn goruchwyllo ei weithredu a'i werthuso.

**9.** Datganiad sy'n nodi—

- (a) sut y bydd yr awdurdod lleol yn rhoi gwybodaeth i rieni a gwarcheidwaid o ran argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg a'r math o addysg cyfrwng Cymraeg a gynigir;
- (b) sut y bydd yn rhoi gwybodaeth i rieni a gwarcheidwaid sy'n datgan bod addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn i bersonau ni waeth beth fo'u cefndir ieithyddol;
- (c) sut y bydd yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth ynghylch y manteision a all ddaw yn sgil dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.

**10.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod personau a addysgir yn Gymraeg yn parhau i gael eu haddysgu felly wrth drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i grŵp blwyddyn arall, a chynllunio yn unol â hynny os yw'r cyfraddau cadw yn destun pryder i'r awdurdod.

**11.—(1)** Targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwylidig yn ystod oes y cynllun yn yr addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn ei ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

(2) Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwylidig yn ystod oes y cynllun yn yr addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn ei ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

**12.—(1)** Targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwylidig yn ystod oes y cynllun yn nifer a chanran y personau ym mlwyddyn 10 ac uwch yn ei ysgolion uwchradd a gynhelir sy'n astudio am gymwysterau ac sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

(2) Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwylidig yn ystod oes y cynllun yn nifer a chanran y personau ym mlwyddyn 10 ac uwch yn ei ysgolion uwchradd a gynhelir sy'n astudio am gymwysterau ac sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**13.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn rhoi cymorth i barhau â'r addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir ar gyfer personau ym mlwyddyn 10 ac uwch drwy gydweithio ag ysgolion eraill a SABau eraill os bydd angen.

**8.** A statement setting out how the local authority has worked in partnership with its Welsh in education planning forum (if established in the local authority's area) to prepare the authority's plan and how the forum will oversee its implementation and evaluation.

**9.** A statement setting out—

- (a) how the local authority will provide parents and guardians with information as to the availability and type of Welsh medium education provision on offer;
- (b) how it will provide parents and guardians with information stating that Welsh medium education is an option for persons regardless of their linguistic background;
- (c) how it will make best use of information regarding the benefits that bilingualism and multilingualism can bring.

**10.** A statement setting out how the local authority will ensure the continuation of persons taught in Welsh on transfer from one year group to another and plan accordingly if retention rates are a cause for concern for the authority.

**11.—(1)** A target outlining the expected increase during the lifespan of the plan in the amount of Welsh medium education provided in its maintained schools which provide education through the medium of both English and Welsh.

(2) A statement setting out how the local authority will achieve the expected increase during the lifespan of the plan in the amount of Welsh medium education provided in its maintained schools which provide education through the medium of both English and Welsh.

**12.—(1)** A target outlining the expected increase during the lifespan of the plan in the number and percentage of persons in year 10 and over in its maintained secondary schools who are studying for qualifications and are assessed through the medium of Welsh.

(2) A statement setting out how the local authority will achieve the expected increase during the lifespan of the plan in the number and percentage of persons in year 10 and over in its maintained secondary schools who are studying for qualifications and are assessed through the medium of Welsh.

**13.** A statement setting out how the local authority will support the continued provision of Welsh medium education for persons in year 10 and above by working collaboratively with other schools and FEIs if necessary.

**14.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cydweithio a'i ysgolion a SABau (os bydd angen) i gyd-drefnu darpariaeth Gymraeg fel pwnc i bersonau sydd ym mlwyddyn 10 ac uwch yn ei ysgolion uwchradd a gynhelir.

**15.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn gwella sgiliau Cymraeg personau sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg mewn unrhyw ysgol a gynhelir ganddo er mwyn gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg.

**16.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio canfyddiadau ei adolygiadau o dan adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(1) er mwyn gwella darpariaeth Gymraeg ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer cynllunio'r gweithlu o fewn y sector anghenion dysgu ychwanegol.

**17.** Datganiad sy'n nodi ymrwymiad yr awdurdod lleol i adnabod y gweithlu y mae ei angen arno er mwyn darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod oes y cynllun yn unol â thargedau'r cynllun, ac i gyfrifo unrhyw ddiffyg disgwylidig yn ei weithlu.

**18.** Datganiad sy'n nodi ymrwymiad yr awdurdod lleol i gydweithio ag awdurdodau lleol eraill drwy arfer eu swyddogaethau ar y cyd wrth gynllunio a darparu cymorth er mwyn gwella sgiliau Cymraeg athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion, mewn ysgolion a gynhelir yn ei ardal.

**19.** Datganiad sy'n nodi ymrwymiad yr awdurdod lleol, gan gydweithio ag awdurdodau lleol eraill ac asiantaethau eraill, i sicrhau bod y cynllun yn cael ei ystyried yn ystod ystyriaethau ynghylch safonau addysgol cyfrwng Cymraeg ysgolion a gynhelir yn ei ardal.

**20.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol, gan gydweithio ag awdurdodau lleol eraill fel y bo angen, yn hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg mewn perthynas â chludiant i ddysgwyr yn unol â'r ddyletswydd a nodir o dan adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008(2).

---

©©Hawlfraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

---

(1) 2018 decc 2.  
(2) 2008 mccc 2.

**14.** A statement setting out how the local authority will work with its schools and FEIs (if necessary) to co-ordinate the provision of Welsh as a subject to persons in year 10 and above in its maintained secondary schools.

**15.** A statement setting out how the local authority will improve the Welsh language skills of persons receiving Welsh medium education in any school it maintains in order to improve the standards of Welsh medium education.

**16.** A statement setting out how the local authority will use the findings of its reviews under section 63 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018(1) to improve Welsh language provision for persons with additional learning needs and for workforce planning within the additional learning needs sector.

**17.** A statement setting out the local authority's commitment to identify the workforce it requires to provide Welsh medium education during the lifespan of the plan in accordance with the plan's targets, and to calculate any anticipated shortfall in its workforce.

**18.** A statement setting out the local authority's commitment to work on a collaborative basis with other local authorities by exercising their functions jointly in planning and delivering support to improve the Welsh language skills of school teachers and school learning support workers in maintained schools in its area.

**19.** A statement setting out the local authority's commitment, in collaboration with other local authorities and other agencies, to ensure that the plan is taken into account during considerations regarding the Welsh medium educational standards of maintained schools in its area.

**20.** A statement setting out how the local authority, in collaboration with other local authorities as necessary, will promote access to education and training through the medium of the Welsh language in relation to learner transport in line with the duty set out under section 10 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008(2).

---

© Crown copyright 2019

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

(1) 2018 anaw 2.  
(2) 2008 nawm 2.



£6.90

W201912041005 12/2019

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/1489>

ISBN 978-0-348-20490-2



9 780348 204902